14 Gorffennaf 2022

Annwyl Bennaeth Canolfan

Cymwysterau Cymru – Diweddariad yr Haf

Wrth i ni agosáu at ddiwedd y tymor ysgol, rydyn ni'n gobeithio y byddwch chi'n cael cyfle i orffwys, ymlacio a magu nerth newydd dros wyliau'r haf.

Rydyn ni'n cydnabod bod yr ychydig wythnosau diwethaf wedi bod yn heriol ac yn gythryblus i ddysgwyr, athrawon a chanolfannau, gan mai eleni oedd y tro cyntaf i ddysgwyr sefyll arholiadau ac asesiadau ffurfiol ers cyn y pandemig. Mae diweddariad ar arholiadau yn y llythyr hwn.

Roedden ni hefyd eisiau rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am rai o'n prif raglenni gwaith cyn i chi dorri ar gyfer gwyliau'r haf, fel eich bod yn gwybod cyn tymor yr hydref.

Haf 2022

Gan fod cyfres arholiadau'r haf bellach wedi dod i ben, rwy'n ysgrifennu i ddiolch i chi am eich holl waith caled yn paratoi dysgwyr ar gyfer arholiadau ac asesiadau eleni. Rwy'n falch bod arholiadau wedi gallu cael eu cynnal, ac er gwaethaf ambell i broblem, sy'n anffodus yn anochel yn y system gymhleth o arholiadau, mae pethau wedi mynd yn dda ar y cyfan.

Cofrestriadau

Gwnaethon ni gyhoeddi data ar y nifer dros dro o gofrestriadau ar gyfer arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch yr haf hwn ym mis Mai. Mae'r data hwn yn rhoi syniad cynnar i ni o newidiadau mewn patrymau cofrestru, sy'n ddefnyddiol wrth ddehongli canlyniadau'r haf.

Mae'r ffigurau cofrestru ar gyfer TGAU yn is na'r rhai a oedd wedi'u cofrestru ar gyfer yr haf diwethaf – pan gafodd graddau eu dyfarnu gan ddefnyddio Graddau a Bennir gan Ganolfan. Fodd bynnag, o gymharu â 2019, mae nifer y cofrestriadau TGAU wedi

cynyddu. Mae nifer y cofrestriadau gan ddysgwyr Blwyddyn 10 yn fwy nag yn 2021 ac mae'n fwy na dwbl y nifer yn 2019 (yn bennaf oherwydd cynnydd yn y nifer sy'n cofrestru ar gyfer TGAU Llenyddiaeth Saesneg o'r grŵp blwyddyn hwnnw). Ar lefel UG, mae llai o gofrestriadau nag yn 2021 a 2019. Fodd bynnag, mae'r darlun cyffredinol hwn yn cuddio'r ffaith bod cofrestriadau gan ddysgwyr Blwyddyn 12 yn sylweddol uwch nag yn 2019, ond bu gostyngiad parhaus mewn cofrestriadau gan ddysgwyr Blwyddyn 13 ar Lefel UG.

Am yr ail flwyddyn yn olynol, mae nifer y dysgwyr sy'n cofrestru ar gyfer Safon Uwch wedi cynyddu. Roedd y rhan fwyaf o'r cynnydd o ganlyniad i gofrestriadau gan ddysgwyr Blwyddyn 13, a gynyddodd 4.4% o gymharu â'r haf diwethaf.

Dyfarnu

Gydag arholiadau yn dychwelyd eleni, bydd CBAC yn dyfarnu graddau dysgwyr yn seiliedig ar asesiadau a gaiff eu gosod yn allanol. Mae'r gwaith marcio bellach yn mynd rhagddo'n dda i baratoi ar gyfer y broses ddyfarnu.

Rydyn ni eisoes wedi cyhoeddi ein gofyniad i CBAC ddyfarnu graddau eleni sydd, yn fras, hanner ffordd rhwng 2019 a 2021. Mae hwn yn ddull pontio wrth i ni weithio tuag at ddychwelyd i'r "safon perfformiad sefydledig".

Gall dulliau o ddyfarnu cymwysterau galwedigaethol amrywio rhwng cyrff dyfarnu a bydd yn dibynnu ar sut y caiff y cymhwyster ei asesu'n draddodiadol, yn ogystal â dulliau amgen a gafodd eu defnyddio dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Bydd cyrff dyfarnu'n cysoni'r gwaith o ddyfarnu a gosod safonau mewn rhai cymwysterau galwedigaethol â chymwysterau TGAU a Safon Uwch tebyg, lle bo'n briodol gwneud hynny.

Holiadur 'Dweud Eich Dweud'

Fel rhan o'n gwaith o fonitro cyfres yr haf, fe wnaethon ni gynnal holiadur 'Dweud Eich Dweud' i roi cyfle i ddysgwyr, athrawon a darlithwyr roi adborth am arholiadau eleni. Diolch i bawb a gymerodd amser i ymateb ac i rannu'r holiadur ag eraill. Cawsom ni 1909 o ymatebion, sy'n gynnydd sylweddol ar flynyddoedd blaenorol. Rydyn ni wedi cyhoeddi dogfen gryno ar ein gwefan lle gallwch ddarganfod mwy am themâu allweddol yr ymatebion. Byddwn ni hefyd yn rhannu gwybodaeth fanylach yn ein cyhoeddiadau diwrnod canlyniadau.

Rhyddhau canlyniadau

Hoffen ni atgoffa ysgolion a cholegau bod canlyniadau yn gyfrinachol tan y diwrnodau canlyniadau swyddogol (**18 Awst** ar gyfer UG a Safon Uwch a **25 Awst** ar gyfer TGAU) ac na ddylech eu rhannu ag unrhyw berson neu sefydliad y tu allan i'ch ysgol neu goleg. Bydd canlyniadau cymwysterau galwedigaethol a gaiff eu defnyddio ar gyfer dilyniant yn cael eu rhyddhau erbyn yr un pryd.

Apeliadau

Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at bob canolfan yn amlinellu'r cymorth sydd ar gael i ddysgwyr sydd o dan anfantais economaidd sy'n dymuno apelio yn erbyn eu gradd. Mae'r cymorth hwn ar gael ar gyfer cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol, i wneud yn siŵr y gallwch ariannu'r apeliadau ar gyfer pob dysgwr sydd o dan anfantais lle mae'n briodol gwneud hynny.

Os ydych chi neu ddysgwr yn credu bod gradd yn anghywir, efallai yr hoffech chi ystyried defnyddio *Gwasanaeth Ôl-ganlyniadau'r* corff dyfarnu. Er bod y broses apelio'n wahanol y llynedd, eleni mae'r sail dros apelio i raddau helaeth fel ag yr oedd cyn y pandemig.

Mae'n bwysig atgoffa dysgwyr mai dim ond os bydd gwall yn cael ei ganfod y bydd eu canlyniadau'n cael eu newid, a gallai'r radd godi, gostwng neu aros yr un fath. I gael rhagor o wybodaeth am apeliadau, gweler canllaw y CGC i brosesau apelio.

Bydd prosesau apelio ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yn amrywio yn dibynnu ar y corff dyfarnu. Dylech gyfeirio at wefan y corff dyfarnu am ragor o wybodaeth.

Efallai y bydd rhai dysgwyr hefyd am ystyried ailsefyll pwnc, felly dylech hefyd fod yn barod i gynghori dysgwyr pa gyfleoedd ailsefyll sydd ar gael.

Paratoi ar gyfer cyfres arholiadau yn y dyfodol

Fel y cyhoeddwyd yn flaenorol, rydyn ni wedi cadarnhau y bydd gwybodaeth ymlaen llaw yn cael ei darparu ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch sydd wedi'u creu i Gymru a chymwysterau galwedigaethol cymeradwy mewn iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant a gaiff eu hasesu trwy arholiad yn y flwyddyn academaidd nesaf. Ni fydd unrhyw addasiadau blaenorol ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a chymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yn berthnasol mwyach.

Mae'r mesurau hyn er budd dysgwyr ac yn arwydd o'n taith yn ôl i drefniadau asesu cyn-bandemig. Rhyddhaodd CBAC wybodaeth ymlaen llaw ar gyfer cyfres arholiadau mis Tachwedd ddiwedd y mis diwethaf. Bydd gwybodaeth ymlaen llaw ar gyfer cyfres Ionawr 2023 yn cael ei rhyddhau yn yr hydref ac ar gyfer haf 2023 yn nhymor y gwanwyn.

Cymwys ar gyfer y dyfodol

Hoffen ni ddiolch i'r rhai ohonoch sydd wedi cymryd rhan i'n helpu i gyd-lunio'r cymwysterau newydd fel rhan o'n Gweithgorau Lefel Pwnc (SLWGs) a'n rhwydweithiau Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh).

Rydyn ni'n dal ar y trywydd iawn i rannu'r cynigion o ran sut y gallai'r cymwysterau newydd edrych yr hydref hwn. Byddwch yn gallu rhoi adborth ar y cynigion a'r briffiau dylunio ar gyfer pob pwnc TGAU. Pan fydd y dogfennau'n fyw, byddwn ni'n e-bostio canolfannau gyda dolen a'r dyddiad cau i gyflwyno'ch adborth; rhannwch y ddolen hon gyda chydweithwyr os gwelwch yn dda gan ein bod am glywed gan gynifer o bobl â phosibl. Rydyn ni'n bwriadu ailymgynnull ag aelodau ein Gweithgorau Lefel Pwnc a'n rhwydweithiau Maes Dysgu a Phrofiad yn gynnar yn 2023 i ddadansoddi'r canfyddiadau a thrafod syniadau o'r adborth a gawn i'r cynigion a'r briffiau dylunio. Byddwn ni'n cysylltu â chydweithwyr yn nes at y dyddiad i drefnu cyfarfodydd yn y dyfodol.

Yn y cyfamser, ewch i'n gwefan i weld y gwaith rydyn ni wedi'i wneud hyd yma ar *Cymwys ar gyfer y dyfodol.*

Cynnig ehangach

Diolch i'r canolfannau a'r ysgolion hynny a fynychodd ein gweithdai lle buon ni'n trafod meddyliau cynnar ar y cynnig ehangach o gymwysterau a'r goblygiadau y gallai ei gael ar ysgolion, colegau a dilyniant. Roedd y rownd hon o ymgysylltu wedi'i theilwra i grwpiau penodol fel y gallen ni ganolbwyntio ar syniadau a materion a wnaeth godi o'n rownd gyntaf o ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Byddwn ni'n cyflwyno ein canfyddiadau ac yn gofyn am eich barn yn gynnar y flwyddyn nesaf, yn ogystal â darparu diweddariad llawn yn nes at yr amser.

Llais y dysgwr

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, rydyn ni wedi cwblhau gwaith ymgysylltu helaeth â dysgwyr ar ddulliau asesu TGAU a byddwn ni'n cyhoeddi'r canfyddiadau yn yr hydref.

Mae meddyliau, barn a phrofiadau dysgwyr yn bwysig i ni ac fe gaiff y rhain eu hadlewyrchu wrth greu ein grwpiau Dysgwyr. Ym mis Medi, gyda chefnogaeth canolfannau, rydyn ni am recriwtio mwy o ddysgwyr i'r ddau grŵp - ein Grŵp Cynghori i Ddysgwyr a'n Grŵp Dysgwyr Galwedigaethol/Seiliedig ar Waith. I gael rhagor o wybodaeth am sut y gall dysgwyr wneud cais, neu sut y gall canolfannau enwebu, edrychwch ar ein gwefan.

Hoffen ni ddiolch i chi eto am eich holl gefnogaeth, nid yn unig yn ystod tymor yr arholiadau, ond ers i dymor yr haf ddechrau. Edrychwn ymlaen at barhau i gydweithio â chi a'ch cydweithwyr pan fyddwch yn dychwelyd o'ch gwyliau. Os ydych yn mynychu'r Eisteddfod Genedlaethol, yng Ngheredigion fis nesaf, mae croeso i chi alw heibio ein stondin – rhif 23 ar y maes – am sgwrs gyda'n tîm.

Yn gywir

Philip Blaker

Prif Weithredwr